

# Rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017

Adroddiad ar etholiad cyffredinol Senedd y DU a  
gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017

**Tachwedd 2017**

## Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk)

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

# Cynnwys

<b>Crynodeb .....</b>	<b>4</b>
<b>1 Rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017 .....</b>	<b>6</b>
Rheolau gwariant a rhoddion yn etholiad 2017 .....	6
Edrych ar etholiadol 2017 yng ngoleuni profiad o 2015.....	7
Cofrestru ymgyrchwyr .....	9
Rheoleiddio rhagweithiol .....	10
Adrodd ar wariant a rhoddion .....	13
Gwariant ar ymgyrchu yn etholiad 2017 .....	14
<b>2 Edrych i'r dyfodol: rheoleiddio etholiadau yn y dyfodol.....</b>	<b>17</b>
Tryloywder mewn ymgyrchoedd etholiadol digidol ac ar-lein.....	17
Egluro'r rheolau gwariant.....	20
Newidiadau i'r rheolau .....	23
<b>Atodiad A: Rheolau gwariant a rhoddion yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017 .....</b>	<b>26</b>
Y rheolau ar gyfer ymgeiswyr .....	27
Y rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol.....	28
Y rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau .....	28

# Crynodeb

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gan ymgeiswyr, pleidiau a gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau mewn etholiadau a refferenda. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth er mwyn rhoi tryloywder ynghylch gwariant a rhoddion etholiadol ac yn gweithio i sicrhau lefelau uchel o gydymffurfio â rheolau cyllid gwleidyddol y DU fel y gall pleidleiswyr a'r cyhoedd gael hyder yng nghanlyniad etholiadau a reolir yn dda.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi materion penodol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymgyrch etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017 ac yn tynnu sylw at y gwaith rhagweithiol a wnaed gennym er mwyn sicrhau y rhoddwyd gwybod i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol, ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau am y rheolau a'u bod yn cydymffurfio â nhw.

Gan fod etholiad cynnar wedi'i gynnal ar fyr rybudd, cyflwynwyd heriau ymarferol i bleidiau ac ymgyrchwyr eraill, ond roeddem yn gallu gweithio'n adeiladol gyda llawer ohonynt. Gan mwyaf, mae'n bleser gennym nodi i bleidiau ac ymgyrchwyr eraill fwriadu cydymffurfio â rheolau cyllid a gwariant etholiadol, ac y gwnaethant hyn. Byddwn yn monitro'r ffurflenni gwariant sydd i'w cyflwyno'n ddiweddarach eleni er mwyn gwneud yn siŵr bod hyn yn wir.

Gwnaeth ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ddefnydd sylweddol o ddulliau ymgyrchu digidol yn yr etholiad hwn. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd newydd i ymgyrchwyr ymgysylltu â phleidleiswyr. Ond mae risgiau hefyd i dryloywder a hyder i bleidleiswyr, er enghraifft, sy'n ymwneud â'r defnydd o dechnegau targedu uniongyrchol datblygedig, gan gynnwys 'botau', ac mae lle i wella cyfraith etholiadol yn y maes hwn.

Rydym yn barod i weithio gyda llywodraethau a deddfwrfeydd y DU i gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn rhoi rhagor o dryloywder ynghylch gwariant ar ymgyrchoedd digidol ac ar-lein. Rydym yn ailadrodd ein hargymhellion blaenorol y dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr roi argraffnodau ar ddeunydd ymgyrch digidol ac ar-lein, ac y dylid rheoleiddio costau staffio ar gyfer pob math o ymgyrchwyr. Byddai'r newidiadau hyn yn cynyddu tryloywder i bleidleiswyr ynghylch pwy sy'n ceisio dylanwadu ar eu pleidlais yn ystod ymgyrchoedd etholiadol, a pha dechnegau sy'n cael eu defnyddio.

Rydym hefyd yn ategu ein galwadau am gael pwerau mwy cadarn ar waith er mwyn mynd i'r afael ag achosion o dorri'r rheolau ac y dylai ein pwerau ymchwiliol a chosbi mewn etholiadau pwysig gael eu hymestyn i gynnwys troseddau sy'n ymwneud â gwariant a rhoddion ymgeiswyr. Mae'r rhan fwyaf o ymgyrchwyr yn dilyn y rheolau, ond gall methiannau i gydymffurfio leihau tryloywder i bleidleiswyr a hyder i etholiad gael ei gynnal yn dda. Felly, pan fo'r rheolau'n cael eu torri, mae'n bwysig ymdrin â hyn yn gadarn ac yn effeithiol.

Mae'r amser wedi dod i'r newidiadau hynny gael eu rhoi ar waith gan lywodraethau a deddfwrfeydd y DU, cyn yr etholiadau cenedlaethol nesaf yn 2021 a 2022.

# 1 Rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017

1.1 Er mai etholiad cyffredinol cynnar oedd yr etholiad ar 8 Mehefin 2017, roedd y mwyafrif o reolau cyllid gwleidyddol y DU yn berthnasol yn yr un modd ag etholiad cyffredinol a gynlluniwyd. Roedd rheolau ar waith a oedd yn ceisio cyfyngu ar wariant a rhoi tryloywder i bleidleiswyr ynghylch ffynonellau cyllid a gwariant gan ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017.

## Rheolau gwariant a rhoddion yn etholiad 2017

1.2 Mae'r gyfraith etholiadol yn pennu rheolau sy'n berthnasol i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ceisio dylanwadu ar ganlyniad etholiadau yn y DU. Nod y rheolau hyn yw cyfyngu ar wariant a rhoi tryloywder i bleidleiswyr ynghylch ffynonellau cyllid a gwariant gan ymgeiswyr mewn etholiadau. Rydym yn esbonio'r rheolau mewn canllawiau rydym yn eu cyhoeddi ar ein gwefan.<sup>1</sup>

1.3 O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae rheolau ar faint y caiff pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ei wario ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod y cyfnod cyn etholiad cyffredinol y DU. I ymgeiswyr, pennir y rheolau yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Roedd y rheolau hyn yn berthnasol yn ystod 'cyfnodau penodol a reoleiddir' cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017, a ddangosir yn Ffigur 1 ar dudalen 3.

1.4 Mae Atodiad A yn pennu'r rheolau gwariant a rhoddion i ymgyrchwyr yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017 yn fanylach.

---

<sup>1</sup>Comisiwn Etholiadol [Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr](#) (2017); [Canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#) (2017)

## Ffigur 1: Cyfnodau a reoleiddir ar gyfer ymgyrchwyr yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017

2016		2017					
Mehefin	Gorffennaf - Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin

- Cyfnod a reoleiddir pleidiau gwleidyddol ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau etholiad cyffredinol Senedd y DU 2017
- Y cyfnod cyn senedd y DU yn cyhoeddi etholiad cyffredinol Senedd y DU 2017 ac ymgeiswyr yn gallu cael eu henwebu
- Yr "ymgyrch fer" ar gyfer ymgeiswyr etholiad cyffredinol Senedd y DU 2017

1.5 Fel rheoleiddiwr cyllid gwleidyddol y DU, mae'r Comisiwn yn cymryd ymagwedd ragweithiol at sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau. Mae'r adran hon yn pennu'r hyn a wnaethom yn 2017 er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn deall y rheolau, ac yn gwybod beth roedd angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

1.6 Pan fo'n angenrheidiol ac yn gymesur, rydym yn gweithredu er mwyn ymchwilio a byddwn yn gosod cosbau pan gaiff y rheolau eu torri. Gwnaethom gymryd yr ymagwedd hon drwy gydol yr ymgyrch etholiadol hon ac rydym yn parhau i wneud hynny wrth i ni adolygu ffurflenni gwariant pleidiau ac ymgyrchwyr eraill.

## Edrych ar etholiadol 2017 yng ngoleuni profiad o 2015

1.7 Yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017, roedd mwy o sylw yn y cyfryngau ar y rheolau sy'n caniatáu i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ganolbwyntio gwariant ar etholaethau wedi'u targedu a sut y dylai pleidiau ac ymgeiswyr roi gwybod am hyn yn eu ffurflenni gwariant ar ôl y bleidlais.

1.8 Roedd hyn yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2015 ac ar ei ôl, bod gwahanu terfynau gwariant ymgeiswyr a phleidiau'n ymddangos yn ddryslyd neu'n annheg o bosibl. Yn ein hadroddiad ar ôl etholiad 2015, gwnaethom gynghori y byddai cael eglurhad yn fuddiol i'r sefyllfa gyfreithiol ar wariant pleidiau gwleidyddol mewn etholaethau. Gwnaethom argymhell y dylai'r Llywodraeth a Senedd y DU adolygu hyn, a nodwyd ein bwriad i'w ystyried ymhellach.<sup>2</sup>

1.9 Ar ôl cyflwyno ffurflenni gwariant Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2015, gwnaethom ymchwilio i nifer fach o ffurflenni gwariant pleidiau gwleidyddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau gwaith. Roedd yr ymchwiliadau'n ymwneud â nifer o droseddau o dan PPERA, ac roedd rhai'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflawnder y ffurflenni gwariant.

<sup>2</sup>Argymhelliad 2 [Adroddiad gwariant ar ymgyrchu Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2015](#) y Comisiwn Etholiadol (Chwefror 2016)

1.10 Nod cyhoeddi ffurflenni gwariant yw rhoi tryloywder i bleidleiswyr ynghylch gwariant ar ymgyrchu. Mae gwybodaeth anghyflawn yn tanseilio'r nod hwnnw ac yn peryglu niweidio'r hyder bod etholiadau'n cael eu cynnal yn dda. Lle y nodwyd methiannau, rydym wedi ymchwilio i'r rhain yn unol â'n polisi gorfodi<sup>3</sup> a, phan benderfynwyd bod angen, cyflwynwyd cosbau ariannol i bleidiau a oedd wedi methu â chydymffurfio.<sup>4</sup>

## Ein dull rheoleiddio

1.11 Rhwng cyhoeddi etholiad 2017 a'r diwrnod pleidleisio, rydym wedi cyhoeddi canllawiau, cynnig gwasanaeth cyngor i bleidiau, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgeiswyr a monitro'r ymgyrch, gan fynd ati i gysylltu â sefydliadau ac unigolion i'w cynghori ar y rheolau. Hefyd, gwnaethom gofrestru ymgyrchwyr, cyhoeddi adroddiadau rhoddion a benthyciadau cyn yr etholiad, ystyried cwynion a honiadau bod y rheolau wedi cael eu torri a gweithredu er mwyn sicrhau bod sefydliadau ac unigolion yn cydymffurfio. Cawsom fod y rhan fwyaf o bleidiau ac ymgyrchwyr ac unigolion eraill y gwnaethom gysylltu â nhw yn ystod yr ymgyrch yn croesawu ein cyngor ac yn cydweithredu ag unrhyw gamau roedd angen iddynt eu cymryd er mwyn cydymffurfio â rheolau cyllid yr ymgyrch.

1.12 Yn ystod Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017, gwnaethom lunio canllawiau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i'w helpu i gydymffurfio â'r rheolau gwariant. Er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi taflen ffeithiau gydag enghreifftiau pynciol ar y ffordd mae'r rheolau'n gweithio ar wahanu eitemau gwariant rhwng terfynau gwariant ymgeiswyr a phleidiau a gwneud cyfrif am hyn.<sup>5</sup>

1.13 Fel mater o drefn, rydym yn adolygu ffurflenni gwariant ar ôl pob etholiad er mwyn penderfynu a oes angen gweithredu. Gall hyn amrywio o gynnal ymchwiliadau i helpu ymgyrchwyr i gydymffurfio yn y dyfodol.

---

<sup>3</sup> *Polisi Gorfodi* y Comisiwn Etholiadol (Ebrill 2016)

<sup>4</sup> Mae adroddiadau achos a chosbau sy'n deillio o'n hymchwiliadau ar gael ar ein gwefan: <https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances/making-an-allegation>

<sup>5</sup> *Enghreifftiau o wahanu gwariant rhwng y blaid a'r ymgeisydd* Comisiwn Etholiadol (Mai 2017)

## Ymdrin ag ymgyrchwyr sy'n torri'r rheolau

**Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn cydymffurfio'n llwyr â'r rheolau y mae'n ofynnol iddynt eu dilyn. Lle maent yn ansicr o agweddau penodol, maent yn ceisio cyngor ac arweiniad gennym i'w helpu i ddeall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt. Fodd bynnag, gall methiant i gydymffurfio leihau tryloywder i bleidleiswyr a hyder i etholiad gael ei gynnal yn dda. Felly, pan fo'r rheolau'n cael eu torri, mae'n bwysig ymdrin â hyn yn gadarn ac yn effeithiol.**

## Cofrestru ymgyrchwyr

1.14 Ni yw cofrestrydd pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn y DU. Mae gennym ddyletswydd i gynnal y cofrestrau hyn, yr ydym yn eu cyhoeddi ar ein gwefan.<sup>6</sup> Rydym yn asesu ceisiadau cofrestru yn ofalus yn erbyn y meini prawf a osodir yn PPERA, er mwyn dod i gasgliad teg ar gofrestru, yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.

### Cofrestru pleidiau

1.15 Er mwyn ymddangos ar bapur pleidleisio ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017, roedd yn rhaid i enw, disgrifiad neu arwyddlun plaid fod wedi'u cofrestru â ni erbyn 9 Mai 2017, sef deuddydd cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau.

1.16 Roedd cyfnod byr rhwng cyhoeddi'r etholiad ar 18 Ebrill 2017 a'r dyddiad cau cyfreithiol hwnnw. Gwnaethom dynnu sylw ymgeiswyr a oedd am gofrestru pleidiau at hyn, a rhoi cyngor mewn perthynas ag opsiynau eraill i gymryd rhan yn yr etholiad, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd annibynnol.

### Cofrestru ymgyrchydd nad yw'n blaid

1.17 Os yw ymgyrchydd nad yw'n blaid yn bwriadu gwario mwy na hyn a hyn o arian ar weithgarwch ymgyrchu etholiadol y gellid ystyried yn rhesymol mai'r bwriad yw dylanwadu ar bleidleiswyr, mae'n ofynnol iddo gofrestru â ni.<sup>7</sup> Cyn y gellir cofrestru ymgyrchydd nad yw'n blaid, mae'n rhaid i ni sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion PPERA. Rhwng dyddiad cyhoeddi etholiad 2017 a'r diwrnod pleidleisio, gwnaethom gofrestru 42 o ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

---

<sup>6</sup> [Cofrestrau Ar-lein Cyllid Pleidiau ac Etholiadau y Comisiwn Etholiadol](#)

<sup>7</sup> £20,000 yn Lloegr, £10,000 yn yr Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddon.

# Rheoleiddio rhagweithiol

1.18 Gwnaethom gyhoeddi ein canllawiau craidd o fewn tri diwrnod i'r etholiad gael ei gyhoedd ac roedd ein cyfres gyflawn o ganllawiau a ffurflenni yn esbonio'r rheolau i bleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar gael o fewn dwy wythnos i'r etholiad gael ei gyhoeddi.<sup>8</sup>

## Themâu cyngor allweddol

1.19 Gwnaeth ein gwasanaeth cyngor cyllid gwleidyddol ymdrin â bron 600 o e-byst a galwadau ffôn yn ystod yr ymgyrch etholiadol. Roedd yr ymholiadau'n cwmpasu ystod eang o faterion a chawsant eu cyflwyno gan unigolion, ymgyrchwyr, pleidiau ac eraill. Daeth y themâu allweddol canlynol i'r amlwg:

- beth yw gweithgarwch wedi'i reoleiddio
- y profion cyhoeddus/diben ar gyfer gwariant ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a sut i'w cymhwyso
- terfynau gwariant
- diffinio gwariant pleidiau ac ymgeiswyr
- y rheolau "argraffnod" ynghylch nodi ffynhonnell deunydd ymgyrchu
- trin rhoddion
- gofynion adrodd

## Y cyfnod rheoleiddio ôl-weithredol

1.20 Gwnaethom gyhoeddi canllawiau yn ystod yr ymgyrch er mwyn galluogi pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i ddeall y rheolau ar y cyfnod rheoleiddio ôl-weithredol. Hefyd, gwnaethom weithio gyda chyrrff eraill er mwyn esbonio'r rheolau, gan gynnwys y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO), a gyhoeddodd flog yn helpu i esbonio'r rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.<sup>9</sup> Rydym hefyd wedi cyhoeddi blog ar wefan Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban (SCVO) sy'n esbonio sut mae'r cyfnod a reoleiddir yn berthnasol i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, yn enwedig Etholiad Cyffredinol cynnar Senedd y Deyrnas Unedig<sup>10</sup>.

---

<sup>8</sup> [Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig](#) y Comisiwn Etholiadol; [Canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig](#); [Canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig](#)

<sup>9</sup> Blog y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol [Charities and the Lobbying Act: the Electoral Commission's view](#) (Mai 2017)

<sup>10</sup> Blog Scottish Council for Voluntary Organisations [Campaigning around a snap election—could the non-party campaign rules affect you?](#) – (Tachwedd 2017)

## Monitro

1.21 Yn ogystal â rhoi cyngor ar gais, aethom at nifer o sefydliadau ac unigolion a nodwyd wrth i ni fonitro'r ymgyrch. Roedd y mathau o faterion roeddem yn eu nodi ac yn eu trin fel hyn yn cynnwys:

- cynghori ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n trefnu 'diwrnodau gweithgarwch' ymgyrch mewn etholaethau neu ranbarthau penodol ar sut i gofnodi ac adrodd ar wariant yn gywir;
- nodi deunydd ymgyrchu heb argraffnodau, megis posteri neu faneri a chynghori'r hyrwyddwyr i ddiwygio'r deunydd – roedd y rhain yn aml yn waith pobl y tu allan i'r brif ffrwd wleidyddol;
- nodi ymgyrchoedd a oedd yn peryglu torri'r rheolau a chynghori ar y camau gofynnol – cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd cymharol fach gan gwmnïau ac unigolion nad oeddent, o bosibl, yn bwriadu dylanwadu ar bleidleiswyr yn anghyfreithlon, ond a oedd yn peryglu cael yr effaith honno;
- gweithio gyda'r heddlu er mwyn datrys materion a oedd y tu allan i'n hawdurdodaeth.

### **Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol yn ystod ymgyrchoedd etholiadol**

**Cyn, yn ystod ac ar ôl ymgyrch etholiadol 2017, gwnaethom siarad â rhai o'r prif bleidiau ar faterion penodol fel y gallem ddeall eu strwythurau cyllid ymgyrch a chynnig cyngor lle y bo angen. Roeddem yn falch o'r cydweithrediad a gawsom a rhoddodd hynny gysur i ni ac, ers hynny, rydym wedi rhoi rhagor o gyngor i rai pleidiau ar faterion megis nodi gwariant ar ymgyrchu yn ystod y cyfnod a reoleiddir a gymhwysir yn ôl-weithredol. Rydym yn parhau i gydweithio â rhai o'r pleidiau hyn ar y fath faterion er mwyn datblygu polisi a dealltwriaeth yn y dyfodol.**

## Ymgyrchu digidol ac ar-lein yn ystod yr etholiad

1.22 Parhaodd ymgyrchwyr â'r duedd a welwyd mewn etholiadau a refferenda diweddar eraill, sef defnyddio cyfryngau cymdeithasol a thechnegau ymgyrchu digidol eraill er mwyn cyfleu eu neges i'r pleidleiswyr. Fel mewn etholiadau a refferenda eraill, gwnaethom roi cyngor ar sut mae'r rheolau'n berthnasol i ddulliau ymgyrchu digidol a monitro gwariant ymgyrchwyr ar y fath weithgarwch. Cafodd y defnydd o'r technegau hyn sylw yn y newyddion, pan oedd rhai sylwebwyr yn mynnu'n anghywir nad oes rheolau'n berthnasol i'r mathau hyn o ymgyrchu. Roedd sylw yn y cyfryngau hefyd yn bwrw amcan o ddefnydd ymgyrchwyr o ddadansoddeg data, ac a oedd gwasanaethau data wedi'u darparu gan gwmnïau nad ydynt yn y DU.

## Rheoleiddio technegau ymgyrchu digidol ac ar-lein

**Nid yw'r gyfraith etholiadol yn cyfyngu lle y caiff ymgyrchwyr brynu gwasanaethau neu nwyddau, ond dim ond gan ffynonellau a ganiateir y gellir cyllido gwaith ymgyrchu, neu ei gefnogi â gwasanaethau. Mae'n rhaid i ni gael gwybod am unrhyw daliadau a wneir ar gyfer gwaith ymgyrchu digidol, a byddwn yn cyhoeddi'r taliadau hynny fel y gwnawn gyda'r holl wariant ar ymgyrchu.**

**Mae'r un rheolau'n berthnasol i wariant gwaith ymgyrchu ar hysbysebu, p'un a yw ymgyrchwyr yn defnyddio technegau hirsefydlog, megis ymgyrchoedd postio deunydd argraffedig neu fyrddau poster, neu rai mwy newydd, megis e-byst a hysbysebion ar-lein.**

1.23 Yn ystod yr ymgyrch, gwnaethom gasglu gwybodaeth i'n helpu i wneud ein gwaith sicrwydd ôl-etholiadol gydag ymgyrchwyr mwy o faint, sy'n cynnwys llinyn digidol er mwyn sicrhau y darperir y lefel gywir o dryloywder mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau hysbysebu digidol eraill. Ym mhennod olaf yr adroddiad hwn, rydym yn pennu beth arall mae angen ei wneud gennym ni ac eraill er mwyn sicrhau bod gan bleidleiswyr hyder bod dulliau ymgyrchu digidol yn cael eu rheoleiddio, a'n barn am sut y gellir gwella'r system er mwyn rhoi mwy o dryloywder yn y maes hwn.

## Gweithgarwch gorfodi yn ystod ac ar ôl yr etholiad

1.24 Gyda gwaith monitro a chysylltu â phleidiau ac ymgyrchwyr rhagweithiol, a chydweithrediad cyffredinol ganddynt pan aethom atynt, roedd yr angen am gamau gorfodi yn ystod yr ymgyrch yn brin.

1.25 Wrth i'r diwrnod pleidleisio agosáu, gwnaethom ymdrin â nifer fach o faterion a oedd yn ymwneud â'r rheolau ynghylch llwgrwobrwyo a thretio, fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl. Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl yn ei gwneud yn drosedd (cyfeirir ati fel 'tretio') ceisio dylanwadu ar unrhyw un i bleidleisio ai peidio, yn ogystal â phleidleisio dros ymgeisydd penodol ai peidio, drwy gynnig arian neu gymhellion eraill megis bwyd a diod. Roedd nifer fach o achosion lle cynigiwyd cymhellion, megis gwaith celf neu alcohol, i bleidleisio. Gwnaethom weithio gyda'r heddlu er mwyn rhoi gwybod i unigolion am y perygl eu bod yn torri'r gyfraith.

1.26 Mae Comisiynau'r Gyfraith yn y DU wedi cymeradwyo'n ddiweddar y dylid diwygio'r gyfraith etholiadol, yn benodol y dylid diddymu trosedd etholiadol tretio a, lle y caiff yr ymddygiad ei gofnodi, y dylid ei erlyn fel llwgrwobrwyo, lle y bo'n briodol.<sup>11</sup> Rydym yn cefnogi argymhelliad Comisiynau'r Gyfraith ac yn parhau i annog llywodraethau'r DU i roi eu pecyn o ddiwygiadau'r gyfraith etholiadol ar waith mor gyflym â phosibl.

---

<sup>11</sup> [Electoral Law: An Interim Report](#) Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban, Comisiwn y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon (Chwefror 2016)

1.27 Mae camau gorfodi ynghylch adroddiadau rhoddion a benthyciadau cyn yr etholiad a gyflwynwyd yn hwyr neu nas cyflwynwyd (gweler isod) yn parhau a chaiff canlyniadau ymchwiliadau nad ydynt wedi cael eu cwblhau eu cyhoeddi ar ein gwefan.

1.28 Bu rhywfaint o fwrw amcan yn y cyfryngau i rai ymgyrchwyr gael arian tramor i'w ddefnyddio tuag at waith ymgyrchu, gan gynnwys ffurfiau ar-lein a digidol. Fel y nodwyd yn gynharach, dim ond gan ffynonellau yn y DU y caniateir i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion. Bydd unrhyw dystiolaeth y byddwn yn ei chanfod neu a roddir i ni sy'n dangos bod hynny wedi digwydd yn cael ei ystyried yn fater gorfodi.

## Gwaith sicrwydd ôl-etholiadol

1.29 Ers yr etholiad, rydym wedi bod yn gweithio gyda sampl o bleidiau ac ymgyrchwyr mwy o faint er mwyn deall sut maent wedi ymgyrchu a pha wariant rydym yn disgwyl ei weld yn eu ffurflenni gwariant. Mae hyn yn canolbwyntio ar sicrhau tryloywder a hyder o fewn systemau adrodd ariannol ymgyrchwyr.

1.30 Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r gwaith hwn yn cynnwys llinyn digidol sy'n ystyried hysbyseb digidol a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd yn edrych ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau a phleidiau sy'n ymgyrchu dros ymgeiswyr pleidiau eraill.<sup>12</sup> Er mwyn sicrhau meysydd risg a allai gyfaddawdu cyflawnder a chywirdeb eu ffurflenni gwariant yn ystod Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, rydym hefyd yn trafod â rhai o'r prif bleidiau ac yn adolygu'r prosesau ar gyfer cofnodi a chasglu gwariant, ac yn cynnig cyngor lle y bo'n briodol.

## Adrodd ar wariant a rhoddion

### Rhoddion a benthyciadau cyn yr etholiad

1.31 Mae'n rhaid i ymgeiswyr pleidiau gwleidyddol sy'n sefyll yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig gyflwyno manylion am unrhyw roddion a benthyciadau dros £7,500, fel rhan o adroddiadau wythnosol i ni. Ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017, gwnaethom gyhoeddi chwe adroddiad ar wahân am roddion yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.<sup>13</sup> Mae'n rhaid i bartïon roi gwybod i ni os nad ydynt yn ymgeiswyr sy'n sefyll er mwyn cael eu heithrio o'r system adrodd wythnosol. Mae'r rheolau adrodd hyn cyn yr etholiad yn bwysig gan eu bod yn galluogi pleidleiswyr i weld

---

<sup>12</sup> Adroddwyd bod nifer fach o bleidiau, yn nodedig y Blaid Werdd a Phlaid Werdd yr Alban, a rhai cysylltiadau lleol y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymgyrchu dros ymgeiswyr pleidiau eraill yn yr etholiad hwn

<sup>13</sup> [Etholiad Cyffredinol: chweched set wythnosol, y set olaf o roddion a benthyciadau wythnosol i bleidiau gwleidyddol](#) Comisiwn Etholiadol (Mehafin 2017)

ffynonellau arian pleidiau gwleidyddol yn ystod cyfnod yr ymgyrch. Ym mis Hydref 2017, rhoddwyd dirwy o £1,000 gennym i blaid am gyflwyno un o'i hadroddiadau rhoddion a benthyciadau wythnosol yn hwyr.<sup>14</sup>

1.32 Hefyd, mae'n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gyflwyno adroddiadau cyn yr etholiad os ydynt wedi cael unrhyw symiau dros £7,500 i'w defnyddio at ddiben eu gweithgarwch ymgyrchu etholiadol rheoleiddiedig.<sup>15</sup>

## Ffurflenni gwariant ymgyrchwyr

1.33 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno eu ffurflenni gwariant ar ymgyrchu i Swyddog Canlyniadau yr etholaeth roeddent yn sefyll ynddi. Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gyflwyno ffurflenni gwariant ôl-etholiadol i ni ac mae dau derfyn amser gwahanol, yn dibynnu ar faint maent wedi'i wario.

**Ffigur 2: Cyfnodau adrodd ar gyfer ymgyrchwyr yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017**

2017						
Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr

- Pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wariodd llai na £250,000
- Pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wariodd dros £250,000
- Ymgeiswyr

## Gwariant ar ymgyrchu yn etholiad 2017

### Ffurflenni gwariant ymgeiswyr

1.34 Roedd cyfanswm o 3,304 o ymgeiswyr yn sefyll yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017. Roedd hyn yn llai nag yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2015 (3,971 o ymgeiswyr) ac Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2010 (4,133 o ymgeiswyr). Roedd yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau drefnu bod ffurflenni gwariant ymgeiswyr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, a hefyd anfon copiâu atom cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Hyd yn hyn, rydym wedi cael 3,252 o ffurflenni ymgeiswyr, sy'n cynrychioli bron 98% o'r cyfanswm a ddisgwylir.

<sup>14</sup> [Cosbau gan y Comisiwn Etholiadol am dorri rheolau cyllid ymgyrchu](#) Comisiwn Etholiadol (Hydref 2017)

<sup>15</sup> [Etholiad Cyffredinol: chweched set wythnosol, y set olaf o roddion a benthyciadau wythnosol i bleidiau gwleidyddol](#) Comisiwn Etholiadol (Mehefin 2017)

1.35 Mae'r ffurflenni gwariant a gafwyd gennym hyd yn hyn yn dangos i ychydig dros £13.7 miliwn gael ei wario gan ymgeiswyr yn ystod yr ymgyrch fer ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017. Rydym wedi cyhoeddi crynodeb o'r data o'r ffurflenni a gafwyd hyd yn hyn ar ein gwefan.<sup>16</sup>

## Ffurflenni gwariant pleidiau gwleidyddol

1.36 Gwnaeth 75 o bleidiau gwleidyddol ymgyrchu yn ystod Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017. Roedd hyn yn sylweddol is na'r 142 a ymgyrchodd yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2015.

1.37 O'r rheiny, cyflwynodd 64 o bleidiau ffurflenni gwariant dan y trothwy adrodd £250,000, erbyn y terfyn amser ym mis Medi 2017. Y cyfanswm gwariant a adroddwyd gan y 64 o bleidiau hyn oedd ychydig dros £310,000. Rydym wedi cyhoeddi'r ffurflenni gwariant hyn ar ein gwefan.<sup>17</sup> Mae ffurflenni gwariant y pleidiau gwleidyddol a wariodd dros £250,000 i'w cyflwyno ym mis Rhagfyr 2017, a byddwn yn eu cyhoeddi ddechrau 2018.

## Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

1.38 Cyflwynodd cyfanswm o 17 o ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ffurflenni gwariant ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017 dan y trothwy £250,000. Rydym wedi cyhoeddi'r ffurflenni gwariant hyn ar ein gwefan.<sup>18</sup> Y cyfanswm gwariant a adroddwyd gan y 17 o ymgyrchwyr hyn nad ydynt yn bleidiau oedd ychydig dros £1.8 miliwn. Mae ffurflenni gwariant ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a wariodd dros £250,000 i'w cyflwyno ym mis Rhagfyr 2017, a byddwn yn eu cyhoeddi ddechrau 2018.

### **Gwariant ar ymgyrchu gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2017**

**Mae cyfanswm y gwariant a adroddwyd hyd yn hyn gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017 (ychydig dros £1.8 miliwn) yn tynnu sylw at y rôl sylweddol y gallant ei chwarae yn ystod ymgyrchoedd etholiadol, ac yn dangos pam ei bod yn bwysig bod rheolau ynghylch eu cyllid a'u gwariant.**

1.39 Yn ogystal â chyhoeddi'r ffurflenni gwariant hyn, rydym yn eu gwirio er mwyn nodi unrhyw faterion posibl y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach. Mae'r gwaith ar droed ac, os byddwn yn cynnal unrhyw ymchwiliadau o ganlyniad iddo, bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

<sup>16</sup> [Crynodeb cofnodion gwariant ymgeiswyr hyd yn hyn](#)

<sup>17</sup> Cofnodion gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol sydd wedi adrodd gwario llai na £250,000

<sup>18</sup> Cofnodion gwariant ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sydd wedi adrodd gwario llai na £250,000

1.40 Hefyd, os byddwn yn nodi materion neu dueddiadau yn ychwanegol at y rhai a nodwyd yn yr adroddiad hwn, byddwn yn cyhoeddi adroddiad arnynt, ac yn cynnwys unrhyw argymhellion a wnawn ar gyfer gwneud newidiadau i'r system. Os bydd y rheolau cyllid ymgyrchu yn cael eu torri, mae'n bwysig bod gennym bwerau cadarn i ymdrin â nhw ac, yn adran olaf yr adroddiad hwn, rydym wedi pennu lle rydym wedi galw am welliannau i'w gwneud i'n bwerau.

## 2 Edrych i'r dyfodol: rheoleiddio etholiadau yn y dyfodol

2.1 Dilynodd etholiad cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017 gyfnod o weithgarwch etholiadol dwys ers 2014. Rydym bellach yn edrych i'r dyfodol ar etholiadau yn 2021 a 2022 a gaiff eu rheoleiddio o dan PPERA, ac rydym am gyflwyno rhagor o eglurder i'r gyfraith a'r rheolau i ymgyrchwyr yn yr etholiadau hynny.

2.2 Mae'r bennod hon yn tynnu sylw at y camau rhagweithiol rydym eisoes yn eu cymryd, a'n hargymhellion am yr hyn y dylai eraill ei wneud er mwyn gwella cydymffurfiaeth â'r rheolau cyllid gwleidyddol ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

### Tryloywder mewn ymgyrchoedd etholiadol digidol ac ar-lein

2.3 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd twf yn y defnydd o dechnegau ymgyrchu digidol ac ar-lein mewn etholiadau yn y DU, gan gynnwys ffyrdd mwyfwy soffistigedig o ddefnyddio data, negeseuon mwy personol sydd wedi'u targedu, a gallu ymgyrchwyr i gyrraedd mwy o bleidleiswyr, am lai o gost nag erioed.

2.4 Gall pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r technegau ymgyrchu sydd ar gael iddynt ac nid ein rôl ni yw cyfyngu ar waith ymgyrchu cyfreithlon a ganiateir ac nid ydym yn dymuno gwneud hynny. Ein blaenoriaeth ni yw sicrhau bod y rheolau'n cael eu dilyn ac y cynhelir tryloywder priodol o wariant ar ymgyrchu er mwyn sicrhau hyder pleidleiswyr yn y rheolau cyllid gwleidyddol.

2.5 Mae'n bwysig pwysleisio bod y rheolau cyllid gwleidyddol yr un mor berthnasol i ymgyrchu digidol ac ar-lein ag i ddulliau ymgyrchu traddodiadol. Mae gan bleidleiswyr hawl i ddisgwyl yr un tryloywder ynghylch gwariant gan ymgyrchwyr mewn etholiadau, ni waeth a yw'r gwariant yn ymwneud â hysbysebu ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol ddullai mwy cyfarwydd o hysbysebu megis taflenni a byrddau poster.

2.6 Er bod dulliau ymgyrchu ar-lein yn destun rheoleiddio yn union yn yr un modd â dulliau ymgyrchu mwy traddodiadol eraill, mae'n cyflwyno rhai heriau rheoleiddio penodol. Rydym am sicrhau bod y gyfraith etholiadol yn adlewyrchu'n briodol newidiadau mewn technegau ymgyrchu, ac rydym wedi gwneud sawl argymhelliad ar gyfer gwelliannau ar ôl etholiadau blaenorol. Byddai gwneud argraffnodau'n ofynnol ar ddeunydd ymgyrchu digidol neu ar-

lein, er enghraifft, yn galluogi pleidleiswyr a'r cyhoedd i fod yn hyderus ynghylch pwy sy'n ceisio dylanwadu arnynt yn ystod ymgyrchoedd etholiadol.

2.7 Roedd sylwebaeth a chodwyd pryder yn ystod ac ar ôl yr etholiad ynghylch defnyddio technegau targedu uniongyrchol datblygedig a meddalwedd megis 'botau' fel adnoddau ymgyrch. Mae 'bot' (sef robot gwe) yn rhaglen feddalwedd awtomataidd ar-lein. Ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol, maent yn cael eu dylunio er mwyn dynwared ymddygiad dynol.

2.8 Dylai pleidleiswyr ac eraill gael eu cysuro bod y rheolau gwariant presennol yn cwmpasu gwariant ar greu neu ddefnyddio'r fath dechnegau ymgyrchu er mwyn llunio a lledaenu deunydd ymgyrch etholiadol. Mae angen mwy o dryloywder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am lunio a chyhoeddi'r deunydd ymgyrchu gwirioneddol sy'n cael ei gynhyrchu gan y fath dechnegau. Dylai gofynion newydd ar gyfer argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu digidol neu ar-lein fod yn berthnasol hefyd i ddeunydd y mae 'botau' yn ei ledaenu, a dylai fod yn drosedd defnyddio 'botau' fel hyn heb egluro pwy sydd wedi achosi i'r deunydd gael ei gynhyrchu ac ar ran pwy mae'n cael ei ledaenu.

### **Gwella tryloywder a rheoleiddio ymgyrchoedd ar-lein**

**Rydym am weld newidiadau i'r gyfraith etholiadol er mwyn helpu i wella tryloywder a rheoleiddio ymgyrchoedd ar-lein yn etholiadau'r DU.**

**Gwnaethom argymell yn 2003 yn wreiddiol y dylai fod yn ofynnol i ddeunydd ymgyrchu ar-lein a gynhyrchir gan bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau – fel y deunydd argraffedig cyfatebol – gynnwys argraffnod sy'n dweud pwy sydd wedi'i gyhoeddi. Byddai hyn yn galluogi pleidleiswyr i nodi pwy sy'n gwario arian er mwyn ceisio dylanwadu arnynt mewn etholiadau.**

**Byddai ein hargymhelliad yn golygu bod angen i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU a'i chymeradwyo gan Senedd y DU. Bydd hefyd yn golygu bod angen i Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch etholiadau yn y deddfwrfeydd hynny.<sup>19</sup>**

**Rydym hefyd wedi argymell sut y gellid diwygio'r rheolau er mwyn sicrhau bod ymgyrchwyr yn rhoi dadansoddiad manylach o wariant, gan gynnwys ar fathau gwahanol o hysbysebion, megis deunydd hyrwyddo ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.**

---

<sup>19</sup> Ar ôl rhoi Comisiwn Smith a Chytundeb Dydd Gŵyl Dewi ar waith, daeth y rhan fwyaf o faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith etholiadol dan gyloch gwaith Senedd yr Alban a Chynulliad Cymru ynghylch etholiadau i Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiadau llywodraeth leol.

**Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddiwygio'r gyfraith etholiadol fel bod y newidiadau hyn ar waith cyn yr etholiadau mawr nesaf yn 2021 a 2022.**

2.9 Mae sefydliadau eraill a fydd hefyd yn chwarae rolau pwysig wrth wella tryloywder a hyder mewn ymgyrchoedd digidol ac ar-lein cyn etholiad cyffredinol nesaf Senedd y Deyrnas Unedig. Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) ganllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ynghylch gwaith ymgyrchu gwleidyddol a defnyddio data personol a oedd yn cwmpasu rheolau ar ddiogelu data a gwaith marchnata electronig.<sup>20</sup> Roedd hefyd yn cwmpasu defnydd pleidiau o ddadansoddeg data a thechnolegau eraill at ddibenion ymgyrchu.

2.10 Ym mis Mai 2017, cyhoeddodd y Comisiynydd Gwybodaeth hefyd ei bod wedi dechrau ymchwiliad swyddogol i ddefnyddio dadansoddeg data at ddibenion gwleidyddol.<sup>21</sup> Rydym yn croesawu diddordeb a chyfranogiad y Comisiynydd Gwybodaeth, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'i gwaith a'i ategu.

2.11 Mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi cydnabod bod pryderon cynyddol ynghylch tryloywder gweithgarwch hysbysebu ac ymgyrchu gwleidyddol a wneir drwy eu llwyfannau a'u rhwydweithiau. Mae nifer o gwmnïau mawr wedi cyhoeddi datganiadau cyhoeddus sy'n esbonio eu cynlluniau i wella tryloywder ac ategu'r broses o reoleiddio gweithgarwch ymgyrchu etholiadol ar-lein a digidol, yn enwedig mewn ymateb i bryderon a godwyd yn Unol Daleithiau America ar ôl etholiad seneddol 2016.<sup>22</sup>

### **Gweithio gyda chwmnïau digidol a chyfryngau cymdeithasol**

**Fel rheoleiddiwr rhagweithiol, rydym eisoes mewn deialog â'r prif gwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn y DU er mwyn trafod y newidiadau maent yn bwriadu eu gwneud er mwyn gwella tryloywder hysbysebion gwleidyddol ar eu llwyfannau.**

**Byddwn yn nodi a oes camau penodol y gallent eu cymryd er mwyn ategu tryloywder a chydymffurfiaeth â rheolau cyllid gwleidyddol y DU. Byddwn hefyd yn archwilio pa gymorth y gallent ei roi i ni er mwyn sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio a gorfodi sy'n ymwneud â gweithgarwch ymgyrchu digidol ac ar-lein mor effeithiol â phosibl.**

<sup>20</sup> [Guidance on political campaigning](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Ebrill 2017).

<sup>21</sup> [The Information Commissioner opens a formal investigation into the use of data analytics for political purposes](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Mai 2017).

<sup>22</sup> [Update on Our Advertising Transparency and Authenticity Efforts](#) Facebook (Hydref 2017); [Security and disinformation in the U.S. 2016 election: Our work going forward](#) Google (Hydref 2017); [New Transparency For Ads on Twitter](#) Twitter (Hydref 2017).

2.12 Hefyd, mae cwestiynau ehangach ynghylch cyfryngau cymdeithasol mewn etholiadau sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai y mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol amdanynt.

2.13 Yn gyntaf, nid ydym yn rheoleiddio cynnwys negeseuon na hysbysebion ymgyrchu gwleidyddol, gan gynnwys gwybodaeth anghywir; nac yn ceisio ymestyn ein cylch gwaith i gynnwys y materion hyn. Rydym wedi bod yn glir y byddai gofyn i ni weithredu fel 'comisiwn gwir' hysbysebu gwleidyddol yn peryglu niweidio ein gallu i ymgymryd â'n rôl rheoleiddio cyllid gwleidyddol.

2.14 Yn ail, nid yw rheolau cyllid gwleidyddol y DU erioed wedi ceisio rheoleiddio mynegiant gwleidyddol ehangach yn ein cymdeithas ddemocrataidd, ac nid ydym yn rheoleiddio gwariant ar weithgarwch nas bwriedir iddo ddylanwadu ar ddewisiadau pleidleiswyr yn etholiadau'r DU.

2.15 Yn drydydd, dim ond i unigolion neu sefydliadau yn y DU neu i ymddygiad sy'n digwydd yn y DU mae rheolau PPERA yn berthnasol. Ni allwn ddefnyddio ein pwerau cosbi sifil ein hunain ar unigolion na sefydliadau nad ydynt yn y DU, ond gallwn wrth gwrs geisio olrhain a chyrraedd casgliadau lle gellir dangos bod unigolion neu sefydliadau nad ydynt yn y DU wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n ymwneud ag etholiad yn y DU.

### **Gweithio gydag eraill er mwyn deall a rheoleiddio gwaith ymgyrchu digidol**

**Mae ymgyrchwyr yn defnyddio adnoddau digidol yn fwyfwy mewn etholiadau a'r tu allan i gyfnodau etholiad. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltiad dinesig a democrataidd. Ond rydym yn cydnabod ei fod hefyd yn codi cwestiynau pwysig ar gyfer amgylchedd democrataidd ehangach y DU.**

**Yn sicr bydd llywodraethau a deddfwrfeydd y DU am ystyried y materion hyn ymhellach. Rydym yn barod i lywio unrhyw drafodaethau yn y dyfodol a chyfrannu tystiolaeth a'n harbenigedd fel rheoleiddiwr cyllid gwleidyddol y DU.**

## **Egluro'r rheolau gwariant**

2.16 Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd y gallwn atgyfnerthu ac esbonio'n well y rheolau gwariant presennol ar gyfer ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, er mwyn rhoi sicrwydd y bydd y rheolau'n cael eu dilyn yn etholiadau'r DU yn y dyfodol.

## Codau ymarfer

2.17 Yn ogystal â'r pŵer i gyhoeddi canllawiau sy'n esbonio'r rheolau, mae gennym bwerau hefyd i wneud Codau Ymarfer sy'n amlinellu'r mathau o dreuliau sy'n dreuliau etholiadol at ddibenion adrodd gan bleidiau ac ymgeiswyr cofrestredig.<sup>23</sup> Rydym wrthi'n llunio Codau Ymarfer ar agweddau ar wariant pleidiau ac ymgeiswyr. Bydd y codau hyn yn egluro meysydd deddfwriaeth perthnasol ar gyfer ymgeiswyr, pleidiau, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Rydym yn bwriadu ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ar y Codau hyn.

2.18 Er ein bod yn gyfrifol am ddrafftio a llunio unrhyw Godau Ymarfer, Senedd y DU sy'n gyfrifol am eu cymeradwyo. Os byddent yn cael eu cymeradwyo, byddai ganddynt statws statudol a byddai'n ofynnol i ymgyrchwyr gydymffurfio â nhw.

## Adrodd ar wariant

2.19 Mae'n rhaid i ymgyrchwyr gyflwyno ffurflenni gwariant er mwyn dangos eu bod wedi aros o fewn eu terfyn gwariant. Mewn rhai amgylchiadau, gellir gwneud cyfrif am wariant gan ymgyrchydd gwahanol i'r un a dalodd amdano mewn gwirionedd. Cyfeirir yn gyffredinol at yr arferion hyn fel "gwahanu gwariant" rhwng ymgyrchwyr gwahanol (er enghraifft rhwng ymgeisydd mewn etholaeth unigol a'r blaid wleidyddol sy'n ei gefnogi), a "gwariant tybiannol" gan rywun ar ran ymgyrchydd.

2.20 Caiff ymgyrchwyr wahanu sut maent yn dyrannu costau rhai eitemau, fel eu bod yn cofnodi ac yn adrodd ar y gwerth a wariwyd ar bob ymgyrch yn gywir. Mae'n rhaid iddynt wneud asesiad gonest a rhesymol o gyfran y costau y gellir ei phriodoli'n deg i bob terfyn gwariant ar ymgyrchu. Gwariant tybiannol yw lle mae rhywun arall yn gwario arian ar ran plaid, ymgeisydd neu ymgyrchydd nad yw'n blaid. Er enghraifft, os bydd plaid wleidyddol yn trefnu ac yn prynu gwasanaethau ar ran un neu fwy o'i hymgeiswyr, mae'n rhaid gwneud cyfrif am y gwariant yn ffurflenni'r ymgeiswyr.

2.21 Rydym wedi nodi nad yw'r wybodaeth ategol a gyflwynwyd gyda'r ffurflenni gwariant bob amser yn rhoi darlun llawn a chyflawn o'r gwariant gwirioneddol ar ran yr ymgeisydd. Mae i hyn oblygiadau ar gyfer tryloywder ynghylch y ffordd mae rhai ymgeiswyr yn codi ac yn gwario arian, ac rydym yn edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â hyn drwy ganllawiau a Chodau Ymarfer. Wrth bennu dull gwell, bydd tystiolaeth o etholiadau diweddar a thrafodaethau gyda phleidiau yn ein llywio. Byddwn yn ceisio sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei adrodd a'i ddogfennu'n briodol er mwyn sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth â'r terfynau gwariant ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.

---

<sup>23</sup> [Paragraff 3 Atodlen 8, PPERA.](#)

## Y rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

2.22 Yn 2016, gwnaeth yr Arglwydd Hodgson o Astley Abbots nifer o argymhellion ar gyfer newid y rheolau ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau, gan gynnwys rhai newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu rhai Nad ydynt yn Bleidiau a Gweinyddiaeth Undebau Llafur 2014.<sup>24</sup>

2.23 Gwnaethom weithio er mwyn cynorthwyo a llywio ei adolygiad o'r gyfraith ar ôl etholiad 2015, a chyhoeddi ymateb i'r argymhellion.<sup>25</sup> Rydym yn cytuno y byddai llawer o argymhellion yr Arglwydd Hodgson wedi gwella'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, er ein bod hefyd yn credu na fyddai wedi bod yn ymarferol rhoi rhai o'i argymhellion ar waith.

2.24 Fodd bynnag, ym mis Hydref 2017, nododd Llywodraeth y DU ei bod yn annhebygol y byddai digon o amser deddfwriaethol ar gael er mwyn ystyried argymhellion yr Arglwydd Hodgson a'u rhoi ar waith.<sup>26</sup>

2.25 Yn absenoldeb unrhyw newidiadau i'r rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o weithio gyda llywodraethwyr a chyrrff cynrychioliadol er mwyn sicrhau bod ymgyrchwyr yn deall y rheolau ac yn hyderus ynghylch ymgyrchu yn ystod cyfnodau etholiadol.

2.26 Yn benodol, rydym am ymdrin â chamsyniadau a roddwyd ar gam am y rheolau a allai achosi 'effaith oeri' ymhlith ymgyrchwyr. Mae Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi'i gwneud yn glir eu bod am weithio gyda'r sectorau elusennol a gwirfoddol er mwyn mynd i'r afael â dryswch a chamsyniadau a roddwyd ar gam ynghylch y rheolau, ac rydym yn fodlon parhau i chwarae ein rhan wrth wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

### Sicrhau bod ymgyrchwyr yn deall y rheolau

**Ein nod yw sicrhau bod ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau'n gallu deall a dilyn y rheolau cyllid gwleidyddol. Byddwn yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod y rheolau'n glir fel eu bod yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt yn ystod ymgyrchoedd etholiadol.**

<sup>24</sup> [Third party election campaigning: getting the balance right](#) Adolygiad Ymgyrchu Etholiadol Trydydd Partïon (Mawrth 2016).

<sup>25</sup> [Response to Lord Hodgson's Review of Third Party Campaigning](#) (Hydref 2016).

<sup>26</sup> [Tracey Crouch: I want to give charities confidence to speak out](#) Civil Society Media (Hydref 2017)

# Newidiadau i'r rheolau

2.27 Mae sawl maes lle rydym eisoes wedi nodi materion ac argymell newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn gwella'r dull rheoleiddio cyllid gwleidyddol ar gyfer etholiadau yn y DU yn y dyfodol.

## Gwella tryloywder a hygyrchedd ffurflenni gwariant ymgeiswyr

2.28 Yn dilyn etholiadau cyffredinol blaenorol y DU, rydym wedi tynnu sylw y byddai tryloywder ynghylch gwariant ymgeiswyr yn cael ei wella os byddai'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi ffurflenni gwariant etholiadol ymgeiswyr ar-lein, yn ogystal â thrwy ddulliau presennol archwiliad cyhoeddus lleol.<sup>27</sup>

2.29 Mae Comisiynau'r Gyfraith yn y DU wedi argymell o'r blaen y dylai is-ddeddfwriaeth nodi'n fanwl y broses i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi ffurflenni treuliau a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio (gan gynnwys peidio â derbyn ffurflen), gan baratoi'r ffordd i'w cyhoeddi ar-lein.<sup>28</sup> Mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol hefyd wedi argymell y dylid cael cyfleuster ar-lein ar gyfer cyflwyno a chyhoeddi ffurflenni gwariant ymgeiswyr.<sup>29</sup>

## Sicrhau atebion ataliol effeithiol ar gyfer torri PPERA

2.30 O dan PPERA, mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am orfodi'r rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Gallwn ymchwilio i achosion o dorri'r rheolau hynny a chyflwyno cosbau a dirwyon lle y bo'n berthnasol. Pan fo angen, byddwn yn cyfeirio achosion o dorri rheolau ymgeiswyr Deddf Cynrychiolaeth y Bobl i'r heddlu ymchwilio iddynt.

2.31 Yn 2009, rhoddwyd pwerau i'r Comisiwn gyflwyno cosbau penodedig o £200 ac, ar gyfer achosion mwy difrifol o dorri PPERA, ddirwyon o hyd at £20,000 ar gyfer pob trosedd. Mae'r rheolau presennol yn caniatáu i ni ddirwyo plaid, sefydliad neu unigolyn.

2.32 Rydym wedi tynnu sylw o'r blaen at effaith terfyn presennol y ddirwy uchaf y gallwn ei chyflwyno: yn dilyn casgliadau ein hymchwiliadau i ffurflenni gwariant pleidiau yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2015,

---

<sup>27</sup> [Adroddiad gwariant ar ymgyrchu Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2015](#) y Comisiwn Etholiadol (Chwefror 2016)

<sup>28</sup> [Electoral Law: A Joint Interim Report](#) Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon (Chwefror 2016)

<sup>29</sup> [It's time for urgent and positive Government action](#) Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Medi 2017)

gwnaethom fynegi pryder am y perygl y gall rhai pleidiau gwleidyddol ddod i ystyried talu'r dirwyon hyn fel cost o wneud busnes.<sup>30</sup>

2.33 Rydym yn parhau i argymhell y dylai'r Comisiwn allu cyflwyno cosbau sy'n gymesur â lefelau'r gwariant a drinnir yn rheolaidd bellach gan bleidiau ac ymgyrchwyr.<sup>31</sup>

## Gorfodi rheolau gwariant ymgeiswyr a chyflwyno cosbau am dorri'r rheolau

2.34 Er bod y Comisiwn yn gyfrifol am orfodi'r rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, ar hyn o bryd, heddluoedd ac awdurdodau erlyn y DU sy'n gyfrifol am orfodi'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr a nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl ac ymchwilio i achosion o'u torri.

2.35 Rydym yn parhau i argymhell yn gryf y dylid estyn pwerau'r Comisiwn Etholiadol i ymchwilio a chyflwyno cosbau mewn etholiadau mawr er mwyn cynnwys troseddau sy'n ymwneud â gwariant a rhoddion ymgeiswyr, yn ogystal ag ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau mewn etholiadau cenedlaethol ac yn atgyfnerthu ymddiriedaeth y pleidleiswyr yn y system reoleiddio.<sup>32</sup>

## Gwariant ar amser staff ar gyfer gwaith ymgyrchu etholiadol

2.36 Nid yw'r rheolau gwariant etholiadol yn rhoi tryloywder a therfynau digonol ar yr arian mae pleidiau gwleidyddol yn ei wario ar staffio eu hymgyrchoedd etholiadol. Mae'r arian sy'n cael ei wario ar weithgarwch megis cynhyrchu deunydd ymgyrchu neu ymchwilio i'r farchnad yn cael ei reoleiddio. Ond mae llawer o gostau staffio pleidiau wedi'u heithrio rhag y rheolau, pan fo costau staffio ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wedi'u cynnwys.

2.37 Rydym wedi argymhell o'r blaen y dylid ymdrin â'r anghysondeb hwn er lles tryloywder a sicrhau bod gwariant etholiadol perthnasol yn cael ei reoli gan derfynau gwariant. Rydym yn cydnabod yr heriau i bleidiau amcangyfrif neu gofnodi costau amser eu staff drwy gydol y flwyddyn neu fesul etholiad,

---

<sup>30</sup> [\*Conservative Party fined £70,000 following investigation into election campaign expenses\*](#)  
Datganiad newyddion y Comisiwn Etholiadol (Mawrth 2017)

<sup>31</sup> Argymhelliad 5 [\*Adroddiad gwariant ar ymgyrchu Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2015\*](#) y Comisiwn Etholiadol (Chwefror 2016)

<sup>32</sup> Argymhelliad 1 [\*Adroddiad gwariant ar ymgyrchu Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2015\*](#) y Comisiwn Etholiadol (Chwefror 2016)

ac rydym wedi cynnig rhai atebion y gellid eu datblygu'n gynigion deddfwriaethol.<sup>33</sup>

### **Gwella rheolau cyllid gwleidyddol y DU ar gyfer etholiadau yn y dyfodol**

**Byddai gweithredu'r argymhellion y tynnir sylw atynt yn y bennod hon yn dod ag eglurder a chysondeb i ymgyrchwyr a phleidleiswyr ynghylch sut mae'r rheolau'n cael eu gorfodi a byddai'n cynyddu tryloywder a hygyrchedd ynghylch sut mae ymgeiswyr yn codi ac yn gwario arian ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.**

**Dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddiwygio'r gyfraith etholiadol fel bod y newidiadau hyn ar waith cyn yr etholiadau mawr nesaf yn 2021 a 2022.**

---

<sup>33</sup> Argymhelliad 4 [\*Adroddiad gwariant ar ymgyrchu Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2015 y Comisiwn Etholiadol\*](#) (Chwefror 2016)



Mae'n ofynnol i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gyflwyno ffurflenni sy'n rhoi manylion am eu gwariant yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Mae terfynau amser gwahanol ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n gwario hyd at £250,000 neu fwy na hynny.

## Cyfnodau adrodd ar gyfer ymgyrchwyr yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017

2017						
Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr

- Pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wariodd llai na £250,000
- Pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wariodd dros £250,000
- Ymgeiswyr

O dan PPERA, mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am orfodi'r rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Gallwn ymchwilio i achosion o dorri'r rheolau hynny a chyflwyno cosbau a dirwyon lle y bo'n berthnasol. Ar hyn o bryd, heddluoedd ac awdurdodau erlyn y DU sy'n gyfrifol am orfodi'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr a nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl ac ymchwilio i achosion o'u torri.

## Y rheolau ar gyfer ymgeiswyr

Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgeiswyr yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017 ar 4 Mai 2017, y diwrnod ar ôl i Senedd y DU gael ei diddymu a phum wythnos cyn y diwrnod pleidleisio.

Ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2010 ac Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2015, roedd dau gyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgeiswyr y cyfeiriwyd atynt yn aml fel yr 'ymgyrch fer' a'r 'ymgyrch hir':

- Yn nodweddiadol, dechreuodd yr 'ymgyrch hir' dri mis a hanner cyn i unigolyn ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yn yr etholiad cyffredinol a daeth i ben y diwrnod cyn iddo ddod yn ymgeisydd yn swyddogol.
- Dechreuodd cyfnod yr 'ymgyrch fer' ar y diwrnod ar ôl i unigolyn ddod yn ymgeisydd yn swyddogol a daeth i ben ar y diwrnod pleidleisio. Oherwydd y gallai unigolyn ond ddod yn ymgeisydd yn swyddogol ar ôl i Senedd y DU gael ei diddymu, gallai'r cyfnod hwn gwmpasu hyd at bum wythnos.

Am nad oedd etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017 wedi'i drefnu ymlaen llaw, roedd y gyfraith etholiadol yn golygu nad oedd cyfnod ymgyrchu hir i ymgeiswyr, ac roedd y rheolau ond yn berthnasol yn ystod cyfnod yr ymgyrch fer o 4 Mai 2017 tan y diwrnod pleidleisio.

Roedd ychydig dros bythefnos rhwng cyhoeddi etholiad cyffredinol 2017 a dechrau'r ymgyrch fer pan nad oedd rheolau gwariant ymgeiswyr yn berthnasol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn rhaid i bleidiau awdurdodi gwariant ar ymgyrchu yn briodol yn lleol a sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn eu ffurflenni gwariant ar ôl y bleidlais.

## Y rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol

Roedd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017 yn cwmpasu'r 365 o ddiwrnodau cyn y diwrnod pleidleisio: dechreuodd ar 9 Mehefin 2016 a daeth i ben ar 8 Mehefin 2017. Nodir hyd y cyfnod hwn a reoleiddir yn PPERA. Nid yw Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011 yn effeithio ar amseriad na hyd cyfnodau a reoleiddir ar gyfer etholiadau cynnar na rhai sy'n cael eu trefnu ymlaen llaw ac nid oes gennym rôl wrth bennu eu hamseriad na'u hyd.

Cafodd unrhyw wariant ar weithgarwch ymgyrchu perthnasol yn ystod y cyfnod hwn o 365 o ddiwrnodau ei reoleiddio dan y rheolau ar gyfer yr etholiad cyffredinol. Oherwydd bod y cyfnod a reoleiddir yn cwmpasu'r 365 o ddiwrnodau cyn y diwrnod pleidleisio, roedd hefyd yn cynnwys gweithgarwch a oedd yn ymwneud â'r etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ymlaen llaw a gynhaliwyd ledled Cymru a'r Alban ac mewn rhannau o Loegr ym mis Mai 2017 ac etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon nas trefnwyd ymlaen llaw a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017.

## Y rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Roedd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau hefyd yn cwmpasu'r 365 o ddiwrnodau cyn y diwrnod pleidleisio, o 9 Mehefin 2016 i 8 Mehefin 2017. Unigolion neu sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr. Maent yn chwarae rôl bwysig yn ystod ymgyrchoedd etholiadol drwy roi ystod eang o farn a lleisiau i bleidleiswyr.

Mae gweithgarwch a wneir gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn ystod cyfnod a reoleiddir ond yn debygol o gael ei ystyried yn wariant a reolir os yw'n bodloni dau bawf cyfreithiol am gynulleidfa'r gweithgarwch a'i gynnwys: mae ein canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn cyfeirio at y rhain fel y profion 'cyhoeddus' a 'diben'. Oherwydd i Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig 2017 gael ei gynnal yn gynnar ac yn annisgwyl, mae'n annhebygol y byddai ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wedi mynd i wariant ar weithgarwch cyn cyhoeddi'r etholiad a fyddai wedi bodloni'r profion 'diben' a 'chyhoeddus'. Rydym yn amlinellu'r cyngor a roddwyd gennym a'r canllawiau a'r adnoddau a gyhoeddwyd gennym er mwyn esbonio'r rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn.